Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

**DYDDIAD** **20 Tachwedd 2020**

**GAN** **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994
- Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001
- Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod gan y DU lyfr statud ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae nhw'n arfer y pŵer yn Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael ar waith. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 fel eu bod yn gymwys i Brydain Fawr yn unig ac yn creu rhestr o amrywogaethau ar gyfer Prydain Fawr. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 i alinio'u diwygiadau o ran eu hymarferoldeb â'r Protocol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1294/made

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Cymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Gwnaed hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Cyfnod Pontio Ewropeaidd ym mis Mai.